

Cyfres y Gyllideb 5: Geirfa'r Gyllideb

Hysbysiad Hwylus

Awst 2012

Adolygiad o Wariant

Mae'r Adolygiad o Wariant yn broses a gaiff ei llywio gan y Trysorlys i ddyrannu adnoddau i holl adrannau'r Llywodraeth (yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig), yn ôl blaenoriaethau Llywodraeth y DU. Bydd Adolygiadau o Wariant yn pennu cyllidebau gwariant cadarn a phenodol (**terfynau gwariant adrannol**) dros sawl blwyddyn ar gyfer pob adran. Yna bydd yr adrannau'n penderfynu ar y ffordd orau o reoli a dosbarthu'r arian hwn yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Alldro

Gwariant gwirioneddol neu amcangyfrifon a wnaed ar sail gwariant gwirioneddol hyd yma. Yr alldro yw'r canlyniad a nodir gan adran y Llywodraeth yn ei chyfrifon adnoddau. Mae gwariant a ddangosir ar brisiau alldro'n cynrychioli lefel y pris sy'n berthnasol pan dynnwyd y gwariant. Bydd cymariaethau o wariant dros gyfnod ar brisiau alldro'n dangos y cynnydd o ganlyniad i chwyddiant yn ogystal â'r newidiadau real mewn lefelau gwasanaeth, ac ati.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru. Penodir yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag Atodlen 8 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Arian heb ei neilltuo

Arian a gaiff ei ddyrannu heb unrhyw gyfyngiadau ar sut y dylid ei ddefnyddio.

Arian wedi'i neilltuo

Arian wedi'i neilltuo, y mae'n orfodol ei wario ar wasanaethau neu fentrau penodol, ac na ellir ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

Camau gweithredu

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n nifer o lefelau manylder at ddibenion monitro a rheoli. Y camau gweithredu yw'r lefel fwyaf manwl a gyhoeddir yn nogfennau'r gyllideb ac mae'n nodi meysydd polisi neu fenter. Fodd bynnag, dylid nodi, mae'n bosibl na fydd y camau gweithredu o reidrwydd yn darparu manylion am ddyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol. Gelwid y camau gweithredu gynt yn **llinellau gwariant yn y gyllideb**.

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Corff sy'n cyfrannu at brosesau'r llywodraeth ond nad yw'n adran o'r Llywodraeth nac yn rhan o un. Bydd cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu hyd braich o Weinidogion Cymru. Mae cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i **gyrff cyhoeddus anadrannol** yn y DU.

Corff Cyhoeddus Anadrannol

Corff sydd â rôl ym mhrosesau'r llywodraeth, ond nad yw'n adran y Llywodraeth nac yn rhan o un, er enghraifft Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn unol a hynny mae Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yn gweithredu hyd braich o Weinidogion y Llywodraeth. Mae Cyrff Cyhoeddus Anadrannol yng Nghymru yn cael eu galw'n **Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru**.

Cost cyfalaf

Y gost i'r llywodraeth o ariannu buddsoddiad (h.y. y gyfradd y bydd yn benthyca arian arni). Codir y gost hon ar adrannau er mwyn gwella pa mor agored ydynt wrth **gyfrifyddu adnoddau** ac annog bod asedau'n cael eu defnyddio'n effeithlon.

Costau heb fod yn arian parod

Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae hwn yn ddull o fesur **croniadau** a ddefnyddir mewn cyllidebau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi darlun o gost economaidd cyflawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â llif arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae **dibrisiant**, darpariaethau a **chost cyfalaf** yn enghreifftiau o gostau heb fod yn arian parod. Mae'n bosibl na fydd angen taliad mewn arian parod o gwbl ar yr eitemau hyn (e.e. taliadau cost cyfalaf), neu bydd angen taliad mewn arian parod mewn blynyddoedd diweddarach (e.e. darpariaethau). Ni ellir defnyddio costau heb fod yn arian parod i ariannu gwariant **costau sydd bron yn arian parod**.

Costau sydd bron yn arian parod

Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi; mae hwn yn ddull o fesur **croniadau** trafodion y byddai disgwyl iddynt ddod yn llif arian yn fuan. Mae'r costau hyn yn ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llif arian ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, rhaid gwario ar gyflenwadau nwy/trydan wrth ddefnyddio tanwydd, ond efallai mai'n ddiweddarach, yn chwarterol, y gwneir y taliad mewn arian parod. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae cyflogau, y broses gaffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw'n cynnwys costau **heb fod yn arian parod**.

Costau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru

Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'w godi'n uniongyrchol ar **Gronfa Gyfunol Cymru** ac felly nid yw'n cael ei godi ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae costau uniongyrchol yn cynnwys taliadau i'r Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Cronfa Gyfunol Cymru

Crëwyd Cronfa Gyfunol Cymru gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cyfrif banc niwtral yw hwn a gaiff ei ddal gan y **Tâl-feistr Cyffredinol**. Telir y grant ar gyfer Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol i Gronfa Gyfunol Cymru yn ogystal â symiau a dderbynnir gan Weinidogion Cymru (yn ogystal â Chomisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo defnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru ar gais Gweinidogion Cymru. Er mwyn cymeradwyo hyn, rhaid bod awdurdod statudol dilys wedi'i roi, h.y. rhaid bod y Cynulliad wedi caniatáu defnyddio'r arian drwy **gynnig cyllideb blynyddol** neu **gynnig cyllideb atodol**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 1: Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**.

Cwmpasau

Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i wario adnoddau gan y Cynulliad Cenedlaethol arnynt. Dangosir disgrifiadau o gwmpasau a therfynau adnoddau yn y **cynnig cyllideb blynyddol**. Mae cwmpasau yn cyfateb yn gyffredinol i **brif grwpiau gwariant** a phortffolios Gweinidogion.

Cyfalaf

Gwariant sy'n gyffredinol yn arwain at ased sefydlog (e.e. adeilad, offer neu dir) a fwriadwyd i fod o fudd i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, neu wariant sy'n cynyddu gallu, economi, effeithiolrwydd neu hyd oes ased sefydlog sy'n bodoli. Y duedd yw bod asedau sefydlog yn dioddef **dibrisiant** dros gyfnod. Gall **gwariant a reolir yn flynyddol** a **therfynau gwariant adrannol** gynnwys cydrannau o'r gyllideb gyfalaf.

Cyfanswm y gwariant a reolir

Cyfanswm cyfunol o'r ddwy elfen yn y gyllideb sef **gwariant a reolir yn flynyddol** a **therfynau gwariant adrannol**, neu, cyfanswm y gwariant cyfredol a'r gwariant cyfalaf gan y sector cyhoeddus.

Cyfrifon

Cyfes o ddogfennau sy'n cael eu creu i ddangos sut mae cyrff ac adrannau wedi defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael iddynt.

Cyfrifyddu croniadau

Dull o gofnodi incwm a gwariant yn ystod cyfnod cyfrifyddu. Rhoddir cyfrif am wariant neu incwm yn y flwyddyn y caiff ei godi /ei ennill, ac **nid** pan fydd yr arian yn newid dwylo.

Cynnig a phenderfyniad ar y gyllideb

Cynnig a phenderfyniad ar y gyllideb yw'r dull a geir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* o sicrhau bod y gwariant o **Gronfa Gyfunol Cymru** yn gyson. Gweler y **cynnig cyllideb blynyddol**.

Cynnig cyllideb blynyddol

Mae hwn yn cynrychioli cam y **gyllideb derfynol** o broses y gyllideb yng Nghymru, a dyma'r modd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi awdurdod i Weinidogion Cymru ddefnyddio adnoddau, gadw incwm a chael arian o **Gronfa Gyfunol Cymru**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Hysbysiad Hwylus gan y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 3: Cynnig Cyllideb Blynyddol (Y Gyllideb Derfynol)**.

Cynnig cyllideb atodol

Dyma'r trydydd cam ym **mhroses y gyllideb**. Gall Gweinidogion Cymru wneud cynnig cyllideb atodol ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi neu ar ei hôl (h.y. unrhyw adeg ar ôl pasio'r **cynnig cyllideb blynyddol**). Diben y gyllideb atodol yw gwneud cais am ganiatáu newidiadau canol blwyddyn i'r **cynnig cyllideb blynyddol**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 4: y Gyllideb Atodol**.

Cynnig cyllideb drafft

Dyma gam cyntaf **proses y gyllideb** yng Nghymru ac mae'n caniatáu i Aelodau a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru cyn y **cynnig cyllideb terfynol**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Hysbysiad Hwylus gan y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 2: y Gyllideb Ddrafft**.

Cyllideb derfynol

Gweler **cynnig cyllideb blynyddol**.

Cyllideb gynyddrannol

Cyllideb a gaiff ei phennu naill ai drwy leihau neu gynyddu cyllideb y flwyddyn flaenorol, yn wahanol i **gyllidebu ar sail sero** sy'n glanhau'r llechen ac yn dechrau o'r dechrau drachefn. Mae wedi'i seilio ar newidiadau a ragwelir o ran gweithrediadau ac amodau. Mae'n tueddu i arwain at gynnydd mewn cyllidebau dros amser, gan fod y gyllideb wedi'i seilio ar gyllideb y flwyddyn flaenorol fel man cychwyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cyllideb heb ei chlustnodi

Y rhan o **derfyn gwariant adrannol** cyllideb Llywodraeth Cymru sydd **wedi'i neilltuo** at ddibenion penodol. Gweler hefyd **cyllideb wedi'i chlustnodi**.

Cyllideb wedi'i chlustnodi

gyfran **heb ei neilltuo** o'r **terfyn gwariant adrannol** y mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr drosti o ran dyrannu arian. Gelwir y gyllideb wedi'i chlustnodi yn aml yn gyllideb 'floc'.

Cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau

Cyflwynodd hyn arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol ym mhrosesau cyfrifyddu'r Llywodraeth. Y prif newidiadau oedd mabwysiadu dull o **gyfrifyddu cronïadau** am holl wariant adrannau, yn ogystal â chynnwys **dibrisiant a chost taliadau cyfalaf**. Mae cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau yn gwyro oddi wrth y systemau cyfrifyddu traddodiadol ar sail arian parod ar gyfer gwariant cyhoeddus. Mae cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau'n cymryd adnoddau, gwariant, arian parod a chronïadau i ystyriaeth ac mae'n rhoi gwell dull o fesur cost gweithgareddau o fewn adrannau'r Llywodraeth.

Cyllidebu ar sail rhyw

Y dull a ddefnyddir gan lywodraethau i godi arian ac i wario arian gan geisio sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau cyhoeddus.

Cyllidebu ar sail sero

Dull o gyllidebu lle mae pob gwariant i gael ei gyfiawnhau ar gyfer pob cyfnod newydd, yn hytrach na dim ond esbonio'r symiau y gwneir cais amdanynt sydd y tu hwnt i arian y cyfnodau blaenorol (fel **cyllidebu cynyddrannol**).

Cronfeydd

Swm o fewn y **terfynau gwariant adrannol** nad yw wedi'i ddyrannu i raglenni yw cronfeydd, ac mae'r swm hwn yn rhoi byffer i Lywodraeth Cymru o fewn ei **cyllideb wedi'i chlustnodi**. Caiff cronfeydd eu rhannu'n gronfeydd **refeniw** a **chyfalaf** ac fe'u dyrennir yn gyffredinol drwy gydol y flwyddyn trwy **gyllidebau atodol**. Sylwer fod hwn ar wahân i Gronfa'r Trysorlys, y gall gweinyddiaethau datganoledig gael hawl iddi; bydd Trysorlys Ei Mawrhydi yn ystyried hawl o'r fath ar sail pob achos unigol.

Dibrisiant

Ffordd o fesur y modd y bydd ased sefydlog yn dod i ben, yn cael ei ddefnyddio neu fath arall o ddirywiad yn ei oes ddefnyddiol, boed hynny o ganlyniad i ddefnydd, y ffaith bod amser wedi mynd heibio neu oherwydd bod yr ased wedi dod i ddiwedd ei oes yn sgil newidiadau technolegol neu newidiadau yn y farchnad.

Derbynebau

Maent yn nodi'r arian gwirioneddol a gafwyd am ddarparu nwyddau neu wasanaethau, neu o werthiant neu rentu asedau cyfalaf. Dylid cyferbynnu hwn ag incwm, sy'n cynrychioli'r incwm a enillwyd (nid a gafwyd o reidrydd) o werthu nwyddau a gwasanaethau. Mewn cyllidebau, dangosir derbynebau fel ffigurau negyddol.

Fformiwla Barnett

Fformiwla sydd wedi'i seilio ar y boblogaeth ac a ddefnyddir i ddyrannu cyfran o'r newidiadau yn y gwariant arfaethedig ar wasanaethau tebyg gan adrannau Llywodraeth y DU i weinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Fformiwla Barnett yn cyfrifo maint y **newidiadau** i'r **gyllideb wedi'i chlustnodi** yn hytrach na **chyfanswm y gyllideb wedi'i chlustnodi**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 1: Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**

Grant bloc

Y grant bloc yw'r swm o arian y bydd Senedd y DU yn cytuno i'w roi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol. Mae'n cynnwys **y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi** o fewn y **terfyn gwariant adrannol**, a chaiff ei gyfrifo o'r llinell sylfaen bresennol gan ddefnyddio **fformiwla Barnett**.

Gwariant a reolir yn flynyddol

Ar y cyfan mae'n fwy anodd rhagweld gwariant a reolir yn flynyddol na'r **terfynau gwariant adrannol**. Mae'n cynnwys gwariant wedi'i seilio ar y galw yn gyffredinol ac felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau aml-flwyddyn, (er enghraifft, rhoi benthyciadau i fyfyrwyr). Adolygir a phennir hwn ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y gellir dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddewis o safbwynt y dyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn ôl y gofyn, a bydd yn rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r fath sydd heb ei wario.

Hyblygrwydd diwedd blwyddyn

Dull o drosglwyddo darpariaeth sydd heb ei gwario yn y **gyllideb wedi'i chlustnodi** o un flwyddyn i'r blynnyddoedd dilynol. Mae hyn yn sicrhau bod modd defnyddio unrhyw arian nas gwariwyd yn hytrach na gorfod ei roi'n ôl i Drysorlys Ei Mawrhydi. Rhaid i Drysorlys Ei Mawrhydi gymeradwyo unrhyw drosglwyddiad o hyblygrwydd diwedd blwyddyn a'i ddefnyddio'n ddiweddarach. Adeg Adolygiad o Wariant 2010, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ei fwriad i gael gwared ar system yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Ers hynny, mae'r system hon wedi cael ei disodli gan y **System Cyfnewid Cyllidebol**.

Lwfans argyfwng

Lwfans arian neu adnoddau i dalu costau mewn amgylchiadau na ellir eu rhagweld.

Llinell sylfaen

Y sefyllfa gyfeirio er mwyn mesur unrhyw newid. O ran cyllidebau, cyfeiria hwn fel arfer at y flwyddyn ariannol flaenorol. Er enghraifft, yng nghylch cyllideb 2012-13, mae ffigurau'r llinell sylfaen yn cyfeirio at y dyraniadau diweddaraf ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12.

Llinell wariant yn y gyllideb

Gweler **Camau gweithredu**

Meysydd rhaglenni gwariant

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n nifer o haenau o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail haen o fanylion o dan y **prif grwpiau gwariant** ac maent yn diffinio grwpiau gwahanol o wariant yn unol â'r math o wasanaethau sydd i'w darparu.

Monitro canol blwyddyn

System ffurfiol sy'n cymharu gwariant gwirioneddol yn ôl cynlluniau gwariant adrannol ar gyfer blwyddyn ariannol benodol ac sy'n galluogi addasiad o ran dyrannu adnoddau i adlewyrchu amgylchiadau sydd wedi newid yn y flwyddyn honno.

Newidiadau canol blwyddyn

Newidiadau i ddyraniadau gwariant rhwng cyllidebau blynyddol, a gaiff eu hawdurdodi fel arfer trwy **gynigion cyllideb atodol**.

Polisi ariannol (fiscal)

Cyfuniad o bolisiau gwariant a pholisiau trethu a ddefnyddir gan y llywodraeth i hybu tegwch a chynaliadwyedd arian cyhoeddus a sefydlogrwydd ar gyfer yr economi.

Polisi ariannol (monetary)

Y polisi ariannol yw'r broses a ddefnyddir gan awdurdod ariannol gwlad i reoli cyflenwad arian, ac yn aml bydd yn anelu at sicrhau cyfraddau llog a fydd yn hyrwyddo twf a sefydlogrwydd economaidd (yn y Deyrnas Unedig pennir cyfraddau llog gan Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr). Mae'r nodau swyddogol fel arfer yn cynnwys prisiau cymharol sefydlog a lefel diweithdra isel.

Polisi macroeconomaidd

I geisio osgoi ysgytiadau economaidd mawr, bydd llywodraethau'n gwneud addasiadau drwy newidiadau i bolisi y gobeithir fydd yn sefydlog i'r economi ac yn hybu twf. Cyflawnir y rheolaeth economaidd hon drwy ddau fath o strategaeth lywodraethol: **polisi ariannol (fiscal policy)** a **pholisi ariannol (monetary policy)**

Prif grŵp gwariant (MEG)

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n nifer o haenau o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw'r haen uchaf ac maent yn cyfateb l bortffolios neu **gwmpasau** Gweinidogion. Islaw haen y prif grŵp gwariant, nodir y gwariant yn ôl y **meysydd rhaglenni gwariant**, ac o fewn y rhain mae'r **camau**

Proses y gyllideb

Gellir rhannu cylch cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru yn gamau penodol: **y gyllideb ddrafft, cynnig cyllideb blynyddol** a **chynigion cyllideb atodol**.

Refeniw

Gwariant cyfredol i dalu costau cynnal o ddydd i ddydd fel cyflog staff a phrynu gwasanaethau a nwyddau traul. Mae taliadau am fenthyciadau ac ad-dalu arian a fenthyciwyd ar gyfer gwariant **cyfalaf** hefyd yn rhan o wariant refeniw.

Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru

Mae Rhan 5 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ymdrin â chyllid. Mae'n darparu ar gyfer creu **Cronfa Gyfunol Cymru**, y gronfa a fydd yn cael y taliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn agil yr arian a gytunwyd gan Senedd y DU. Bydd taliadau o'r Gronfa er mwyn darparu rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cael eu hawdurdodi gan **gynigion cyllideb blynyddol** ac **atodol** a gaiff eu derbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol.

System Cyfnewid Cyllidebol

System sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i drosglwyddo darpariaeth sydd heb ei gwario yn y **gyllideb wedi'i chlustnodi** o un flwyddyn ariannol i'r flwyddyn nesaf, yn amodol ar Drysorlys EH yn cytuno i hynny ac hyd at uchafswm o 0.6 y cant o'r **terfyn gwariant adrannol** refeniw a 1.5 y cant o'r **terfyn gwariant adrannol** cyfalaf. Diddymodd y system hon y **system hyblygrwydd diwedd blwyddyn**. Yn wahanol i'r system flaenorol, o dan y system cyfnewid cyllidebol, ni chaniateir cronni stociau dros sawl blwyddyn. Gellir cario tanwariant ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yn unig.

Taliadau cyfalaf

Codir taliadau cyfalaf er mwyn brasamcanu costau defnyddio asedau wrth ddarparu gwasanaethau. Mae costau blynyddol o'r fath yn cynnwys costau **dibrisiant** a **chost taliadau cyfalaf**. Dull o **gyfrifyddu adnoddau** yw hwn ac mae'n sicrhau bod holl gostau gweithgareddau adrannol yn cael eu mesur.

Terfyn gwariant adrannol

Fel arfer fe'u pennir dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses **Adolygu Gwariant** Llywodraeth y DU, a dyma'r terfyn cyllidebol aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r terfynau gwariant adrannol **heb eu neilltuo** (y **gyllideb wedi'i chlustnodi**, neu grant bloc) ac mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddewis ei holl flaenoriaethau gwariant. Penderfynir ar unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath gan **fformiwla Barnett**.

Termau real

Gwerth y gwariant wedi'i addasu er mwyn ystyried chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n golygu bod modd cymharu gwariant o'r naill flwyddyn i'r llall heb i newidiadau mewn prisiau effeithio ar hynny.

Y Tâl-feistr Cyffredinol

Y Gweinidog yn Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb statudol am gyfrifon y llywodraeth sy'n cael eu dal yn ei (h)enw ef neu hi ym Manc Lloegr.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar ariannu datganoli neu'r broses gyllidebol, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (Eleanor.Roy@cymru.gov.uk) neu **Kerry Dearden** (Kerry.dearden@cymru.gov.uk) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y linc.

- Trysorlys Ei Mawrhydi, *Funding the Scottish Parliament, National Assembly for Wales and Northern Ireland Assembly: Statement of Funding Policy*, Hydref 2010. (Saesneg yn unig.)
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 1: Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Fformiwla Barnett**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 2: y Gyllideb Ddrafft**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 3: Cynnig Cyllideb Blynyddol (Y Gyllideb Derfynol)**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfes y Gyllideb 4: y Gyllideb Atodol**

Ceir rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: assemblywales.org/research

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Research.Service@wales.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Ymholiad rhif: 12/1869

Author name: Kerry Dearden